

Adroddiad Arolygu ar gyfer Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Wish Skin Clinic, Port Talbot

Dyddiad yr arolygiad: 15 Gorffennaf 2026

Dyddiad cyhoeddi: 15 Hydref 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr gan fod ieithoedd a fformatau amgen yn cael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copi o bob adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu:

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80853-476-8

© Hawlfraint y Goron 2026



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein Diben

Rydym yn gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

Ein Gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Rydym yn:

Annibynnol – rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud.

Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth.

Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws.

Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith.

Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae ei angen fwyaf.

Ein Gweledigaeth

Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb.

Ein Blaenoriaethau

Rhoi Pobl yn Gyntaf – Byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd nawr ac yn y dyfodol.

Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd – Byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi gwelliannau parhaus.

Buddsoddi yn Ein Pobl – Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

Cymryd Camau sydd o Bwys – Byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ar gyfer dyfodol Cymru.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
	Crynodeb cyffredinol:	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	Ansawdd Profiad y Claf	9
	Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	15
4.	Y camau nesaf	17
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	18
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	19
	Atodiad C – Cynllun gwella	20



1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Wish Skin Clinic, Port Talbot ar 15 Gorffennaf 2026.

Cynhaliwyd yr arolygiad gan un o arolygwyr gofal iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd cleifion i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o bedwar holiadur. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gawsom yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, gwelsom fod Wish Skin Clinic yn darparu profiad cadarnhaol i'r cleifion gydag ymrwymiad i ddarparu gofal o safon uchel.

Roedd trefniadau ar waith i hyrwyddo urddas, preifatrwydd a dewis gwybodus y cleifion. Roedd gwybodaeth fanwl yn cael ei rhoi i'r cleifion am driniaethau, gan gynnwys y risgiau, y manteision, y costau a'r gofynion ôl-ofal, a chafwyd cydsyniad yn ystod yr ymgynghoriad a chyn pob triniaeth.

Roedd y clinig hefyd yn darparu gwybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac roedd cymorth cyfieithu ar gael lle y bo angen.

Roedd y gwasanaeth yn mynd ati'n weithredol i geisio adborth gan gleifion ac yn ei ystyried, ac roedd wedi gwneud newidiadau mewn ymateb iddo, fel cyflwyno dull trefnu apwyntiadau ar-lein a chynnig rhai apwyntiadau gyda'r nos ac ar y penwythnos.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y wybodaeth a ddarperir am y clinig a'r gwasanaethau a ddarperir yn dda
- Amgylchedd dymunol a chroesawgar.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith yn Wish Skin Clinic i helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Roedd y safle yn amlwg yn lân, yn daclus ac mewn cyflwr da. Roedd systemau priodol ar waith i reoli iechyd a diogelwch, diogelwch tân, atal a rheoli heintiau, a rheoli a diogelu plant ac oedolion agored i niwed.

Gwelsom fod y cyfarpar laser yn lân, yn cael ei wasanaethu'n rheolaidd ac mewn cyflwr da. Roedd rheolau lleol a phrotocolau trin cynhwysfawr ar waith i gefnogi'r defnydd diogel o'r cyfarpar laser.

Roedd y staff wedi cael hyfforddiant priodol, gan gynnwys hyfforddiant Craidd Gwybodaeth a hyfforddiant sy'n benodol i'r ddyfais, ac roedd sbectolau addas ar gael i'r cleifion a'r gweithredwyr.

Roedd y cofnodion yn glir, yn fanwl ac yn cael eu rheoli'n ddiogel, a chynhaliwyd archwiliadau rheolaidd i gefnogi gwaith gwella ansawdd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y clinig yn lân, yn daclus ac mewn cyflwr da yn ôl pob golwg.
- Roedd trefniadau cadarn ar waith ar gyfer diogelwch laser.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod trefniadau rheoli ac arwain effeithiol ar waith yn Wish Skin Clinic.

Roedd y rheolwr cofrestredig yn goruchwyllo'r gwasanaeth yn effeithiol ac yn dangos trefniadau llywodraethu cryf drwy brosesau cadw cofnodion, rheoli polisïau a goruchwyllo hyfforddiant cynhwysfawr, ynghyd â chydymffurfiaeth â'r gofynion perthnasol.

Roedd systemau addas ar waith ar gyfer ymdrin â chwynion, digwyddiadau, recriwtio, hyfforddiant a datblygiad y staff.

Roedd y polisïau a'r gweithdrefnau yn drefnus, yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac ar gael i'r staff, ac roedd cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol yn cael ei monitro'n effeithiol.

Gwelsom dystiolaeth hefyd o wiriadau recriwtio priodol ac arfarniadau blynyddol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith, a ategwyd gan bolisïau cynhwysfawr, system rheoli fersiynau glir ac adolygiadau rheolaidd.
- Roedd hyfforddiant y staff, gwiriadau recriwtio ac arfarniadau blynyddol yn cael eu rheoli'n dda a'u dogfennu'n glir.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Cwblhaodd pedwar claf holiadur AGIC ar y lleoliad a'r gofal roeddent yn ei gael. Roedd yr ymatebion a gafwyd yn gadarnhaol iawn, a dywedodd y pedwar ohonynt fod y gwasanaeth yn 'dda iawn'.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Clinig cyfeillgar a phroffesiynol ardderchog. Fel pin mewn papur. Rwy'n cael triniaethau cynnal a chadw rheolaidd ac yn croesawu awgrymiadau ganddynt ar gyfer gofal croen gwell. Rwy'n ei argymhell yn fawr i ffrindiau a theulu."

"Mae'r lleoliad yn lân ac yn broffesiynol dros ben. Mae'r holl driniaethau rwyf wedi'u cael wedi bod yn ardderchog ac rwyf wedi bod yn fodlon iawn ar y canlyniadau."

Urddas a pharch

Nid oedd unrhyw gleifion yn bresennol yn y clinig yn ystod yr arolygiad. Fodd bynnag, clywsom y staff yn siarad â'r cleifion dros y ffôn mewn modd cyfeillgar a phroffesiynol.

Roedd cloeon ar ddrysau'r ddwy ystafell drin yn y clinig ac roedd bleinds wedi'u gosod ar y ffenestri allanol er mwyn hyrwyddo preifatrwydd.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig fod y drysau i'r ystafelloedd trin yn cael eu cadw ar glo yn ystod triniaethau. Pe byddai angen i gleifion newid, byddai'r gweithredwr yn camu allan o'r ystafell am gyfnod byr ac roedd gorchuddion tafladwy ar gael i helpu i gynnal urddas y claf.

Roedd polisi ar waith yn y clinig ynghylch y defnydd o hebryngwyr ac roedd yn cynnig y gwasanaeth i gleientiaid ar gyfer ymgynghoriadau a thriniaethau.

Roedd pob un o'r ymatebwyr i holiadur AGIC yn cytuno'n gryf fod y staff yn eu trin ag urddas a pharch a bod camau yn cael eu cymryd i ddiogelu eu preifatrwydd.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Roedd ystod dda o daflenni ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg yn ardal y dderbynfa am y gwahanol driniaethau, gan gynnwys gwaredu blew, gwaredu gwythiennau coch, gwaredu tatŵau, gwaredu pigmentau, trin acne ac adfywio'r croen. Roedd y taflenni yn cynnwys manylion ynghylch sut roedd y triniaethau'n gweithio, sut roeddent yn cael eu cyflawni, eu haddasrwydd, sgil-ffeithiau posibl, beth i'w ddisgwyl ar ôl triniaeth a faint o driniaethau yr oedd eu hangen fel arfer.

Roedd gwybodaeth am y triniaethau a ddarparwyd hefyd wedi'i nodi'n glir ar wefan y clinig.

Roedd polisi ar waith am gydsynio i driniaeth ac roedd angen i'r cleifion lofnodi ffurflen gydsynio yn electronig yn ystod eu hymgyngoriad ac ar gyfer pob triniaeth ddilynol.

Cawsom sicrwydd drwy'r enghreifftiau a roddwyd y byddai cydsyniad yn cael ei wrthod pe bai unrhyw amheuaeth ynghylch gallu i roi cydsyniad ar sail gwybodaeth.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig fod cleifion yn cael gwybodaeth fanwl yn ystod ymgynghoriadau, er mwyn sicrhau y gallent wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am ganlyniadau a risgiau posibl, costau triniaethau a chyfarwyddiadau gofal.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall yr holl opsiynau trin, eu risgiau a'u manteision a'r costau cysylltiedig. Roedd pob un o'r ymatebwyr yn teimlo fod y staff yn gwrando arnynt ac yn ateb cwestiynau a'u bod wedi esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud drwy gydol y driniaeth.

Roedd gwefan y clinig yn cynnwys oriel 'cerdded drwodd' tri dimensiwn fel y gallai'r cleifion weld y lleoliad a'r ystafelloedd trin cyn mynd i'r clinig.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd datganiad o ddiben a chanllaw gwybodaeth i gleifion cyfredol yn y clinig a oedd ar gael i'r cleifion yn rhwydd yn y clinig ac ar y wefan.

Gallai'r cleifion gysylltu â'r clinig drwy alw heibio neu ffonio, neu gallent drefnu apwyntiadau ar-lein.

Er nad oedd y staff yn siarad Cymraeg, roedd ystod dda o wybodaeth yn cael ei darparu a'i harddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg. Roedd Gwasanaeth Cyfieithu Cymru (WITS) ar gael i'r staff a gallai ddarparu ar gyfer cleifion nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf neu yr oedd yn well ganddynt gyfathrebu mewn iaith arall.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd pob claf yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb a phrawf croen cyn cael triniaeth, ac roedd y canlyniadau'n cael eu dogfennu fel rhan o gofnod triniaeth y claf. Dywedwyd wrthym fod yr ymgynghoriad yn cynnwys asesu'r math o groen, trafod disgwyliadau a'r triniaethau sydd ar gael, risgiau a manteision triniaethau a'r costau posibl.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig drefniadau priodol ar gyfer cael hanes meddygol cleientiaid a'r gweithdrefnau ar gyfer eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Roedd cleifion yn cwblhau ffurflen hanes meddygol ac yn ei llofnodi cyn dechrau cael triniaeth ac yn ystod pob ymweliad dilynol.

Cadarnhaodd y cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC fod eu hanes meddygol wedi'i wirio, bod prawf croen wedi'i wneud a'u bod wedi llofnodi ffurflen gydsynio cyn cael triniaeth.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd Polisi Cydraddoldeb, Urddas a Hawliau Dynol ar waith yn y clinig ar gyfer cleifion a staff. Roedd hyn yn cynnwys nodweddion gwarchodedig, yn cyfeirio at ddeddfwriaeth berthnasol ac yn cyfeirio'r staff at bolisiïau eraill fel y polisi gwrthfwlio ac aflonyddu. Roedd pob aelod o'r staff yn y clinig wedi cwblhau hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Roedd y clinig wedi'i leoli ar y llawr gwaelod, ac roedd mynediad gwastad i bob rhan ohono. Roedd mynediad ar gael drwy ramp o'r stryd i'r drws ffrynt a dywedwyd wrthym y gallai ramp cludadwy gael ei ddarparu pe bai angen cymorth ychwanegol i fynd i mewn dros y trothwy i'r safle. Roedd digon o le yn y toiled i gleifion a oedd ar y llawr gwaelod ond nid oedd wedi cael ei ddylunio i fod yn doiled hygyrch a dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y cleientiaid yn cael gwybod am hyn cyn dod.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig drefniadau i helpu cleifion ag anawsterau symudedd, fel gwelyau trin y gellir addasu eu uchder a chymorth a ddarparwyd gan y staff pan fo angen. Roedd system dolen sain ar gael er mwyn helpu cleifion ag anawsterau clywed.

Dywedodd y staff wrthym fod urddas cleifion trawsryweddol yn cael ei gynnal drwy gofnodi a defnyddio'r enwau a'r rhagenwau a ffeirir.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Roedd y clinig yn gofyn i gleifion am adborth mewn ffordd ragweithiol. Roedd neges e-bost yn cael ei hanfon at gleifion yn awtomatig ar ôl pob triniaeth gyda dolen yn eu gwahodd i gyflwyno adborth drwy borth ar-lein. Roedd cod ymateb cyflym (QR) yn cael ei arddangos yn y dderbynfa yn gwahodd cleifion i ddarparu adolygiadau ar-lein. Yn ogystal, roedd blwch sylwadau yn yr ardal aros i bobl nad oedd ganddynt fynediad at ddyfeisiau digidol.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig fod adborth yn cael ei adolygu'n rheolaidd ac y byddai'n cysylltu â chleifion pe bai ganddynt unrhyw broblemau neu bryderon. Cawsom enghreifftiau lle roedd newidiadau wedi'u gwneud oherwydd adborth gan gleifion, fel cyflwyno system trefnu apwyntiadau ar-lein a darparu rhai apwyntiadau gyda'r nos ac ar y penwythnos.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Yr Amgylchedd

Roedd y lleoliad yn lân yr olwg, yn daclus ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Roedd y clinig mewn cyflwr arbennig o dda ac yn darparu amgylchedd dymunol a chroesawgar i'r cleifion.

Roedd toiled rhywedd cymysg ar gael i gleifion gyda chyfleusterau golchi a sychu dwylo priodol ac uned gwaredu eitemau mislif.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd gan y clinig bolisiâu a gweithdrefnau cyfredol er mwyn helpu i gynnal iechyd a diogelwch y staff a'r cleifion yn y clinig, gan gynnwys polisi iechyd a diogelwch manwl wedi'i ategu gan asesiad risg cynhwysfawr.

Roedd polisi Cynnal a Chadw'r Adeilad ar waith a disgrifiodd y rheolwr cofrestredig wiriadau rheolaidd i nodi unrhyw faterion a sut y byddai'r clinig yn ymdrin â'r rhain yn brydlon. Gwnaethom nodi bod y safle mewn cyflwr da, yn daclus ac nad oedd unrhyw annibendod.

Gwelsom dystiolaeth o dystysgrif diogelwch nwy gyfredol, profion ar offer cludadwy (PAT), ac adroddiad ar y gosodiadau trydanol.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau diogelwch tân a gwelsom fod mesurau priodol wedi cael eu rhoi ar waith. Roedd asesiad risg tân trylwyr a chynhwysfawr wedi cael ei gynnal ac roedd yn cael ei adolygu'n flynyddol. Roedd yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân a gwelsom fod diffoddwyr tân ar gael, a bod y cofnodion yn dangos eu bod wedi cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd arwydd 'dim smygu' yn cael ei arddangos yn glir.

Roedd arwyddion da yn dangos lleoliad yr allanfeydd tân ar flaen ac wrth ochr y clinig ac roedd hysbysiadau ar gyfer gweithredu pe bai tân yn dangos yn glir beth i'w wneud pe bai tân.

Gwelsom gofnodlyfrau a oedd yn dangos bod y larwm tân, ffyrdd o ddianc, diffoddwyr tân ac arwyddion yn cael eu harchwilio'n rheolaidd. Roedd ymarferion tân yn cael eu cynnal bob 3 mis ac roedd y cofnodion yn dangos pwy gymerodd ran ac unrhyw faterion a nodwyd.

Roedd pecyn cymorth cyntaf ar gael yn hawdd. Roedd y cynnwys yn gyflawn ac yn gyfredol, ac roedd un aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant cymorth cyntaf diweddaraf. Yn ogystal, roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar gynnal bywyd sylfaenol (adfywio), a oedd yn arfer arbennig o dda ar gyfer lleoliad anghlinigol.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod pob rhan o'r clinig yn lân ac mewn cyflwr da a oedd yn golygu bod modd ei lanhau'n effeithiol. Roedd cyfleusterau golchi dwylo a chyfarpar diogelu personol tafladwy ar gael ym mhob ystafell drin.

Roedd polisïau cyfredol ar waith yn ymwneud â Glanhau Amgylcheddol, Rheoli Heintiau ac Anafiadau a Achosir gan Offer Miniog.

Roedd rhestrau gwirio glanhau manwl yn cael eu defnyddio i sicrhau bod rhannau amrywiol o'r clinig yn cael eu glanhau yn briodol ac yn rheolaidd. Roedd y rheolwr cofrestredig yn archwilio'r rhestrau gwirio glanhau yn rheolaidd.

Roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau. Gwnaethom nodi bod disgwyl i ddwy dystysgrif gael eu hadnewyddu a darparwyd dystysgrifau wedi'u diweddarau yn ystod yr arolygiad ac yn syth ar ôl yr arolygiad.

Roedd trefniadau priodol a diogel ar waith ar gyfer storio a gwaredu gwastraff clinigol, gan gynnwys gwaredu offer miniog.

Roedd y pedwar unigolyn a ymatebodd i holiadur AGIC yn cytuno bod y lleoliad yn 'lân iawn' a bod y staff yn dilyn mesurau atal a rheoli heintiau.

Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed

Roedd y clinig wedi'i gofrestru ac roedd yn gallu darparu triniaethau laser i gleifion 16 oed a throsodd ond dywedwyd wrthym eu bod wedi dewis trin pobl 18 oed a throsodd yn unig yn y practis. Dywedodd y staff wrthym nad oedd plant yn cael bod yn yr ystafell ar gyfer triniaethau laser.

Gwelsom fod polisi Amddiffyn Plant ac Oedolion Agored i Niwed manwl ar waith, wedi'i ategu gan ddogfennau a oedd yn rhestru cysylltiadau ar gyfer cyngor ac atgyfeirio a gweithdrefn 'chwythu'r chwiban'. Roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant cyfredol ar ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed, a'r rheolwr cofrestredig oedd yr arweinydd diogelu.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Roedd y ddwy uned laser mewn cyflwr da, yn lân yr olwg ac yn gyson â'r cofrestriad ag AGIC.

Roedd arwyddion priodol yn cael eu harddangos y tu allan i bob ystafell drin yn rhybuddio yn erbyn mynediad heb awdurdod, bod peiriannau laser yn cael eu defnyddio a bod angen sbectol amddiffynnol. Roedd gan yr unedau laser switshis ag allwedd ac roedd yr allweddi yn cael eu storio'n ddiogel pan nad oedd y peiriannau'n cael eu defnyddio.

Roedd y ddwy uned laser yn cael eu gwasanaethu a'u cynnal a'u cadw'n rheolaidd ac roedd cofnodion priodol ar waith.

Roedd contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau a gwelsom fod rheolau lleol ar waith ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Roedd y ddau weithredwr laser wedi llofnodi'r rheolau lleol ar gyfer pob uned.

Gwelsom fod asesiad risg cyfredol ar waith, a oedd wedi'i lofnodi gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Roedd gan bob ystafell drin restr wirio ddyddiol er mwyn sicrhau bod yr holl gyfarpar mewn cyflwr da ac yn ddiogel i'w ddefnyddio.

Roedd cyfarpar amddiffyn y llygaid addas ar gael i'r cleifion a'r gweithredwyr. Roedd gwahanol fathau ar gael, yn unol â'r rheolau lleol, a defnyddiwyd codau lliw er mwyn helpu i wahaniaethu rhyngddynt. Dywedwyd wrthym fod y sbectolau amddiffynnol yn cael eu harchwilio am ddifrod yn rheolaidd yn ystod y gwaith glanhau dyddiol.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd y ddau weithredwr laser wedi cael hyfforddiant priodol a chyfredol ar ddefnyddio'r unedau laser penodol a hyfforddiant Craidd Gwybodaeth, yn unol â chanllawiau Cymdeithas Laser Meddygol Prydain (BMLA).

Roedd protocolau trin priodol ar waith, ac roedd y rhain yn cynnwys technegau trin, paramedrau ac amrywiadau a ganiateir a chatau gweithredu i'w cymryd pe bai digwyddiad andwyol. Roedd y protocolau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u llofnodi gan ymarferydd meddygol priodol.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd adborth gan gleifion yn cael ei annog a'i adolygu'n rheolaidd, er mwyn helpu i wella'r gwasanaeth.

Roedd gan y clinig bolisi Ymarfer yn seiliedig ar Dystiolaeth, ac roedd y nodau penodol yn cynnwys:

- Cynnal a chadw gwybodaeth gyfredol am newidiadau o ymchwil a chanllawiau drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP) a dulliau eraill, fel adolygiadau rheolaidd o gyfnodolion
- Rhannu gwybodaeth, sgiliau a phrofiad clinigol yng nghyfarfodydd rheolaidd y practis er mwyn cefnogi cydweithwyr a darparu gofal o ansawdd uchel.

Roedd y rheolwr cofrestredig yn cynnal archwiliadau rheolaidd o'r cofrestrau triniaethau a chofnodion y cleifion, ac roedd y canlyniadau'n cael eu trafod fel eitem sefydlog ar yr agenda yn ystod cyfarfodydd staff.

Rheoli cofnodion

Gwelsom fod cofrestrau triniaethau clir a manwl yn cael eu cadw ar gyfer pob uned laser. Roedd y rhain yn cynnwys manylion adnabod y claf, y dyddiad a'r math o driniaeth, yr ardal a gafodd ei thrin a manylion y gweithredwr. Roedd manylion unrhyw effeithiau disgwylidig neu andwyol hefyd yn cael eu cofnodi.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion a gwelsom dystiolaeth bod gwybodaeth gynhwysfawr yn cael ei chofnodi'n electronig. Roedd y cofnodion yn cynnwys manylion adnabod y claf, hanes meddygol, ffurflenni cydsynio ac ymgynghori a hanes triniaethau. Roedd y cofnodion yn cynnwys lluniau o'r claf 'cyn ac ar ôl y driniaeth' ac roedd lluniau o bamedrau'r peiriant laser a ddefnyddiwyd wedi'u storio ynddynt (yn ogystal â chofnod ysgrifenedig o'r rhain).

Roedd gan y clinig bolisiâu ar waith ar gyfrinachedd a chadw cofnodion, er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n ddiogel a'i gwaredu'n briodol ar ddiwedd y cyfnod cadw.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd gan y clinig nifer bach o staff a oedd yn gweithio o dan gyfarwyddyd y rheolwr cofrestredig, gan weithio'n agos gyda pherchennog y clinig.

Gwelsom fod rheolwr y clinig yn effeithiol iawn, gan ddangos safon uchel o ran cadw cofnodion, cydymffurfio â deddfwriaeth a rheoli staff.

Roedd ystod helaeth o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith, a defnyddiwyd cofnod â chodau lliw i ddarparu trosolwg a oedd yn dangos gwybodaeth rheoli fersiynau a dyddiadau adolygu. Roedd gofyn i'r staff lofnodi i gadarnhau bod y polisiâu ar gael iddynt a'u bod yn deall unrhyw newidiadau.

Roedd system electronig effeithiol yn cael ei defnyddio i gofnodi a monitro cydymffurfiaeth y staff â gofynion hyfforddiant gorfodol.

Roedd gan y clinig yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ac yswiriant cyflogwr cyfredol, ac roedd y dystysgrif yn cael ei harddangos yn yr ardal aros.

Gwelsom fod tystysgrifau cofrestru AGIC wedi'u harddangos yn glir yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd gweithdrefn gwyno addas ar waith a oedd yn cynnwys proses glir, amserlenni priodol ar gyfer ymateb a manylion cyswllt i uwchgyfeirio pryderon at gyrff allanol.

Roedd copïau Cymraeg a Saesneg yn cael eu harddangos yn glir yn ardal y dderbynfa, roeddent ar gael ar wefan y clinig ac roedd copïau wedi'u hargraffu ar gael wrth ddesg y dderbynfa.

Roedd manylion unrhyw gwynion yn cael eu cofnodi, gan gynnwys yr holl ohebiaeth. Roedd 'cofnodlyfr digwyddiadau' sy'n dangos manylion cryno'n cael ei ddefnyddio i roi trosolwg clir o gynnydd ac i helpu i nodi unrhyw faterion mynych.

Roedd y protocolau trin ar gyfer pob uned laser yn rhoi cyfarwyddiadau clir ynghylch ymdrin â digwyddiadau diogelwch a gofynion hysbysu.

Dywedwyd wrthym fod gwersi a ddysgwyd o gwynion neu ddigwyddiadau eraill yn cael eu trafod yn ystod cyfarfodydd staff.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Roedd gan y clinig ystod o ddogfennau i helpu i recriwtio staff, gan gynnwys polisi recriwtio, polisi cyfnod prawf, cofnod sefydlu staff a rhestr wirio o ddogfennau ar gyfer newydd.

Gwelsom fod gwiriadau cyn cyflogi priodol yn ofynnol ac yn cael eu dogfennu, gan gynnwys gwiriadau adnabod, hawl i weithio, geirdaon a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Dywedwyd wrthym fod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu diweddarau bob tair blynedd a bod angen i'r staff lofnodi datganiad blynyddol i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i weithio.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff a gwelsom gydymffurfiaeth dda iawn â'r gofynion hyfforddiant.

Gwelsom dystiolaeth o arfarniadau staff blynyddol, a oedd yn cynnwys trafodaethau am ddatblygiad y staff a nodi cyfleoedd hyfforddiant.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen ymdrin â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Wish Skin Clinic

Dyddiad yr arolygiad: 15 Gorffennaf 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Canfyddiadau		Ni nodwyd unrhyw faterion uniongyrchol yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn	
Yr hyn sydd angen ei wella		Safon / Rheoliad	
1.	Ddim yn gymwys	Ddim yn gymwys	
Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth:		Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ddim yn gymwys		Ddim yn gymwys	Ddim yn gymwys

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Wish Skin Clinic

Dyddiad yr arolygiad: 15 Gorffennaf 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod yr arolygiad. Nid yw'n ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella.					